Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Cyn-Ysgol Princess Road
# 6 Princess Road
# Hen Golwyn
# Conwy
# LL29 9PS

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 21/03/2013**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg mewn tŷ mawr yn Hen Golwyn, Conwy yw Meithrinfa Cyn-Ysgol Princess Road.  Mae pob un o’r plant sy’n mynychu’r lleoliad yn dod o’r pentref a’r ardal gyfagos.  Caiff yr ardal ei chydnabod yn ardal nad yw’n freintiedig nac o dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae’r lleoliad wedi bod ar Princess Road er 1986.  Ymestynnwyd y cyfleusterau dan do yn bedair ystafell i lawr grisiau, cegin, ystafell gotiau a thoiledau.  Mae ganddo ardal fawr iawn y tu allan a lle i fyny’r grisiau ar gyfer plant ifanc iawn.  Mae’r lleoliad yn cynnal clwb brecwast, mae’n darparu cyfleusterau cludiant i ysgolion lleol ac oddi yno, ac mae’n cynnig clwb ar ôl yr ysgol a chlwb gwyliau.  Mae’r lleoliad ar agor rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Dywed y lleoliad fod bron pob un o’r plant yn dod o gartrefi Saesneg.  Mae’r plant yn cynrychioli’r ystod gallu llawn ac mae’r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ychydig iawn o blant yn y grŵp presennol sy’n cael eu cydnabod yn blant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Ychydig iawn o blant sy’n dod o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae ychydig o blant yn dod o gartrefi sydd dan anfantais yn gymdeithasol.

Mae’r lleoliad wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer uchafswm o 60 o blant ac mae’n derbyn plant pan fyddant yn bedwar mis oed.  Mae 134 o blant yn mynychu’r lleoliad ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos ar hyn o bryd; mae 12 o’r rhain yn blant tair oed sy’n cael eu hariannu.

Mae’r perchennog, sydd hefyd yn arwain y lleoliad, wedi bod yn ei swydd er 1986.  Mae un deg pedwar aelod o staff yn ei chynorthwyo’n amser llawn ac mae un deg pedwar ohonynt yn rhan-amser.  Mae gan bob aelod o staff gymwysterau addas.

Mae’r perchennog a’r uwch dîm rheoli yn goruchwylio gwaith y lleoliad.  Y tro diwethaf y cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru oedd yn 2012.  Arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r plant yn dangos cynnydd da ac yn cyflawni'n dda ym mhob maes dysgu;
- bod gan bron bob plentyn agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymddwyn yn gyfrifol;
- bod profiadau dysgu yn cael eu cydlynu a'u cynllunio yn drylwyr;
- bod pob plentyn yn cael ei gefnogi'n dda ac yn elwa ar ystod dda o weithgareddau diddorol ac ysgogol;
- bod yr addysgu yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- bod adnoddau o ansawdd da yn cael eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgu'r plant;
- bod y berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda iawn;
- bod perthynas waith dda gydag asiantaethau allanol i gefnogi profiadau dysgu'r plant; a
- bod staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol at lwyddiant y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod y cyfeiriad strategol sy'n cael ei roi gan y darparwr, dros sawl blwyddyn, yn rhagorol;
- bod gan y lleoliad hanes rhagorol o roi newid ar waith, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant;
- bod systemau hunanarfarnu yn effeithiol a thargedau yn cael eu blaenoriaethu yn briodol yng nghynllun datblygu'r lleoliad;
- bod gan bob aelod o staff agwedd gadarnhaol iawn tuag at wella eu medrau trwy gymryd rhan yn weithredol mewn hyfforddiant;
- bod cysylltiadau cymorth da gydag asiantaethau allanol yn cael eu defnyddio yn gyson ac yn synhwyrol;
- bod y perchennog a'r uwch dîm rheoli yn weithgar iawn ac yn gefnogol iawn yng ngwaith y lleoliad o ddydd i ddydd; a
- bod yr amgylchedd dysgu yn ysgogol, yn drefnus iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n dda i gefnogi dysgu'r holl blant.

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd y plant o'r Gymraeg

A2 Gosod amcanion dysgu clir ar gyfer y plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol

A3 Datblygu'r amgylchedd awyr agored i wella gwybodaeth a dealltwriaeth plant o dwf plant a gofalu am yr amgylchedd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd. Ychydig iawn o blant sy'n amharod i drafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion, ac mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda ar blant a phobl eraill. Er enghraifft, mae plant yn trafod siapiau yn effeithiol, yn paru lluniau yn hyderus ac yn siarad yn synhwyrol am gymysgu a chydweddu lliwiau yn ystod gweithgareddau peintio a chyfrifiadur.

Mae bron pob un o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn gwrando'n astud ar storïau. Maent yn ymuno'n frwdfrydig wrth drafod y storïau hyn neu wrth ganu caneuon a hwiangerddi. Mae llawer o blant yn dilyn cyfarwyddiadau a symudiadau mewn caneuon yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn awyddus i ateb cwestiynau am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae mwyafrif y plant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn gywir ac yn astudio'r lluniau a'r geiriau gyda diddordeb. Maent yn adnabod y prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys stori yn ddeallus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiben ysgrifennu.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau rhifedd da. Maent yn cyfrif i 10 yn hyderus ac yn adnabod ac enwi rhifau i 5. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol yn naturiol wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio cynwysyddion fel 'bach' a 'mawr' neu 'hir' a 'byr' wrth eu llenwi â dŵr. Mae bron pob un o'r plant yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl siâp a lliw yn gywir.

Mae mwyafrif y plant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg. Fodd bynnag, ychydig iawn o blant sy'n defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth. Mae llawer o blant yn defnyddio offer electronig yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadur yn dda ac yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr hapus a hyderus. Mae bron pob un o'r plant, mewn perthynas â'u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo yn briodol cyn bwyta byrbrydau a ffrwythau ac yn gwneud hynny heb lawer o anogaeth. Mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda fod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini.

Mae gan bron bob plentyn agwedd dda at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt, dan do ac yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar y staff. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgymryd yn llawn â phob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol drostynt eu hunain ac yn gweithio'n dda yn annibynnol.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd, a chydag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill ac yn rhannu adnoddau o'u gwirfodd. Mae bron pob un o'r plant yn cymryd eu tro yn ddidrafferth yn yr ystafell gotiau pan fyddant yn gwisgo eu cotiau yn synhwyrol i adael yr adeilad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn awgrymu syniadau ynglŷn â beth maent am ei ddysgu, a sut. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda i fodloni athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'n sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol plant. Mae'n cynnwys gweithgareddau diddorol ar gyfer datblygu medrau plant ar draws y cwricwlwm, yn enwedig medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n dda at gynllunio'r cwricwlwm yn wythnosol. Mae aelod o'r uwch dîm rheoli yn cydlynu hyn yn effeithlon ac fe gaiff safbwyntiau a syniadau pob aelod o staff eu hystyried a'u defnyddio yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i alluogi staff i ddilyn diddordebau plant.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau yn dda ac mae gan blant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain. Rhoddir cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol a meddwl. Er enghraifft, caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl trwy arbrofi'n greadigol gyda dŵr a chreu ffyrdd gyda thywod. Mae llawer o oedolion yn cyfathrebu'n briodol gyda'r plant yn Gymraeg ar lefel sy'n briodol i'w hoedran. Mae pob aelod o staff yn annog y plant i ymateb yn Gymraeg ac maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â defnyddio'r iaith mewn gweithgareddau bob dydd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau dysgu plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau gan yr heddlu, y frigâd dân, mamau a babanod ac anifeiliaid sw yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm, sy'n datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant. Mae staff yn cyfeirio'r plant yn bwrpasol tuag at ddefnyddio adnoddau technolegol fel y cyfrifiadur, camerâu, microffonau a theganau robot.

Caiff traddodiadau a dathliadau diwylliant Cymru eu pwysleisio'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae staff yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill yn dda. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu gwyliau, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, ac mae wedi datblygu cysylltiadau agos gydag ysgol feithrin yn Kenya.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant ailgylchu plastig, cardfwrdd, papur, gwydr a metel. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddysgu am sut mae pethau yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gan staff wybodaeth dda ac ymarferol am ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol iawn rhwng pob un o'r staff a'r plant. Mae gan bob aelod o staff rôl weithredol mewn cynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn a gweithgareddau wedi eu dewis gan y plentyn, dan do ac yn yr awyr agored, ac mae staff yn gwybod pryd i ymyrryd yn briodol yn chwarae'r plant. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar gyfer y plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae pob aelod o staff yn modelu iaith yn dda iawn mewn Saesneg ac yn briodol yn Gymraeg. Maent yn annog y plant i arfarnu eu gwaith yn dda ym mhob maes dysgu, fel unigolion a gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae plant yn frwdfrydig ac yn ymgymryd yn llawn â'r holl weithgareddau.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Mae rolau gweithwyr allweddol a'r broses effeithlon o rannu gwybodaeth yn sicrhau prosesau asesu effeithiol. Defnyddir asesiadau dyddiol yn effeithiol i nodi'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn gweithio'n galed iawn i hyrwyddo hunan-barch a hyder plant. Rhoddir cyfleoedd da i blant fyfyrio, trafod eu teimladau, a dysgu cymryd eu tro. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol a rhoddir anogaeth effeithiol i blant gymryd cyfrifoldeb am baratoi a gweini ffrwythau a diodydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel. Mae'n ddiogel; caiff y drysau eu cloi ac fe'u hagorir gan aelod o staff yn unig. O ganlyniad, gall neb ddod i mewn ac ni all plentyn adael ar ei ben ei hun. Mae'r ardal awyr agored yn gaeedig o fewn ffiniau'r lleoliad ac fe gaiff y gatiau eu cloi yn ddiogel. Cymerir gofal da pan fydd plant yn cael eu casglu i sicrhau eu bod yng ngofal eu rhieni neu ofalwr hysbys.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Y perchennog yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac mae'n defnyddio cymorth allanol yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Trwy ei weithgareddau o ddydd i ddydd a'r dull a fabwysiadir gan y staff, mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol iawn. Mae staff yn adnabod y plant yn dda a chydnabyddir eu hunigoliaeth. Caiff pob plentyn yr un cyfle i fanteisio ar gwricwlwm diddorol. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn gyson, sy'n cael gwared ar unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol yn llwyddiannus.

Mae gan staff y lleoliad gymwysterau addas a phrofiad da yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae cymhareb oedolyn i blentyn ffafriol iawn. Gwneir defnydd da o arbenigedd staff wrth gynllunio gyda'i gilydd ac wrth oruchwylio gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan.

Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal yn dda ac yn ddiogel. Gwneir defnydd dychmygus o'r adeilad i sicrhau bod pob un o'r mannau dysgu yn cael eu targedu'n effeithiol mewn amgylchedd trefnus a chynlluniedig. Mae'r lleoliad yn defnyddio ei adnoddau yn fedrus i fodloni anghenion y plant a gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant, sy'n hyrwyddo synnwyr plant o gyfrifoldeb yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae cynllunio strategol y perchennog yn rhagorol. Mae hi wedi llwyddo i ddatblygu ymdeimlad cryf iawn o gydweithredu a gwaith tîm ymhlith pob aelod o staff yn y lleoliad. Mae'n cyfleu disgwyliadau uchel wrth y lleoliad cyfan ac yn gwerthuso ansawdd gwaith y staff yn effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu dulliau cyson, er enghraifft, ymyrryd yn briodol wrth i blant chwarae ac wrth asesu.

Mae gan y perchennog weledigaeth gref iawn a synnwyr o ddiben sydd wedi hyrwyddo a chynnal gwelliannau dros nifer o flynyddoedd. Mae wedi cynnwys prynu tir ac adeiladau ychwanegol, datblygu ardal fywiog dan do ac ardal ag adnoddau da yn yr awyr agored. Mae'r camau hyn wedi gwella gallu'r lleoliad i ddarparu gofal plant cymunedol cynhwysfawr a darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar yn sylweddol. Caiff hyn effaith gref iawn ar ddarpariaeth a chynnal safonau uchel.

Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn fel tîm, gan rannu gwerthoedd, nodau ac amcanion. Mae'r perchennog, sydd hefyd yn arwain y lleoliad, yn cynnwys y staff mewn cynllunio ar gyfer gwella trwy ei thîm uwch reoli effeithiol iawn. Mae'r uwch dîm rheoli yn derbyn ac yn defnyddio'r cyngor gan asiantaethau allanol fel Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a'r awdurdod lleol yn dda iawn. Mae'r defnydd effeithiol iawn a wneir o'r cyngor hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd yn y lleoliad. Mae'r perchennog wedi datblygu ethos cadarnhaol yn llwyddiannus, lle caiff pawb eu herio i gyflawni deilliannau sydd uwchlaw disgwyliadau. Mae gan bob un o'r staff genhadaeth gyffredin a diwylliant hynod effeithiol sydd â dysgu yn ganolbwynt iddo.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Mae'n cynnwys blaenoriaethau clir ar gyfer gwella a nodir trwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae prosesau rhagorol ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni'r amcanion gwella.

Mae'r perchennog a'r staff yn canolbwyntio'n dda iawn ar anghenion plant ac mae'r lleoliad yn cyflawni'r nod hwn yn ymarferol yn llwyddiannus iawn. Trwy herio staff yn gadarnhaol, mae'r perchennog yn gwella eu harfer ac yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn llawn. Mae hyn wedi cael effaith dda iawn ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinyddiaeth ragorol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i ddeddfwriaeth a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a staff yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn gwybod beth y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae cynllun gwella'r lleoliad wedi'i gysylltu'n agos â'i flaenoriaethau hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys costau priodol gyda graddfeydd amser perthnasol. Mae cyfrifoldebau staff am roi'r cynllun ar waith yn glir. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu at nodi meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae gan staff synnwyr o berchnogaeth ac ymrwymiad i ysgogi'r gwelliannau a gynlluniwyd. Gall staff ddangos yr effaith y mae gwelliannau wedi'i chael ar ddeilliannau ar gyfer plant. Er enghraifft, dealltwriaeth plant y bydd yr hyn y maent yn ei fwyta yn effeithio ar eu hiechyd a'u hadnabyddiaeth o rifau mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a thasgau.

Mae staff yn awyddus i dderbyn syniadau newydd o hyfforddiant ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar gysylltu cynllunio ac asesu wedi cael effaith gadarnhaol ar dargedau a deilliannau unigol plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau effeithiol yn bodoli gyda rhieni a gofalwyr. Cânt eu hysbysu'n dda am gyflawniadau a chynnydd eu plant. Mae hyn yn eu helpu i gefnogi dysgu eu plant. Mae'r rhieni, yn atebion yr holiadur ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad ac maent yn werthfawrogol iawn o'r safonau gofal ac ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon cyn gynted ag y bo modd. Mae llyfryn llawn gwybodaeth a gwefan yn rhoi manylion perthnasol i rieni a gofalwyr am y lleoliad.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae rhieni yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Mae cysylltiadau da rhwng y lleoliad a'r ysgolion lleol, ac os yw rhieni'n dewis gwneud hynny, fe gaiff eu plant eu cludo i'r ysgolion ac oddi yno gan fws mini'r lleoliad. Mae partneriaeth gref rhwng y lleoliad a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a'r awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n gyflym ac yn gydwybodol yn unol â chyngor gan y partneriaid hyn, sydd wedi cefnogi'r lleoliad i symud ymlaen ac wedi cyfrannu at ei ddarpariaeth dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinyddiaeth y perchennog yn rhagorol. Mae'n rheoli adnoddau'r lleoliad yn dda iawn i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r perchennog yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol. Defnyddir staff yn effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi dysgu'r plant.

Mae digonedd o adnoddau o ansawdd da sy'n hylaw i'r plant. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardal awyr agored i ddarparu ystod o brofiadau dysgu o ansawdd da.

Yng ngoleuni'r deilliannau da a gyflawnir gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Ymatebodd deuddeg o rieni a gofalwyr i’r holiaduron. Mae pob un o’r rhieni a’r gofalwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â gwaith y lleoliad.

Mae pob un o’r rheini a’r gofalwyr a ymatebodd i’r holiadur yn fodlon â’r lleoliad ac yn cytuno bod eu plant yn teimlo:

- y cawsant gymorth i ymgynefino’n dda a’u bod yn hoffi’r lleoliad;
- eu bod yn gwneud cynnydd da a bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu;
- eu bod yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn ddiogel;
- eu bod yn cael cymorth ychwanegol priodol os bydd angen; a’u bod
- yn ymddwyn yn dda.

Roeddent hefyd yn cytuno:

- bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau;
- bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda;
- bod yr addysgu’n dda;
- eu bod yn deall gweithdrefnau’r lleoliad ar gyfer delio â chwynion;
- eu bod yn gyfforddus yn mynd at y cylch gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau; a’u bod
- yn cael eu hysbysu’n dda am gynnydd eu plant.

Mae’r atebion hyn yn cymharu’n ffafriol iawn â chymariaethau meincnod cenedlaethol.

**Ymatebion i drafodaethau gyda phlant**

Mae bron pob un o’r plant yn hapus yn y lleoliad. Mae brwdfrydedd bron pob un o’r plant yn amlwg pan fyddant yn cyrraedd ac yn cyfarfod â’u ffrindiau. Mae bron pob un ohonynt yn hunanhyderus o wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod tasgau diddorol yn cael eu darparu ar eu cyfer.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheolaidd i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r sefydliad hwn yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |